




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon

1. Cefndir

1.1 Fel rhan o'i chynllun strategol ar gyfer 2013-17 mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd fel egwyddor graidd. O fewn Strategaeth Gynaliadwyedd Y Drindod Dewi Sant, mae wedi ymrwymo yn benodol i weithredu Cynllun Rheoli Carbon ar draws y Brifysgol i leihau ei hól troed Carbon yn unol â thargedau a osodwyd gan CCAUC.

1.2 Ymhellach, ym mis Gorffennaf 2014, mabwysiadodd y Brifysgol Strategaeth Rheoli Carbon i ddangos ei hymrwymiad yn glir ac amlinellu cynllun i reoli a lleihau ei hallyriadau carbon. Amcanion lefel uchel y Strategaeth yw cyrraedd fel isafswm y gostyngiad gofynnol o 3% y flwyddyn mewn allyriadau carbon dros gyfnod 8 mlynedd y strategaeth o linell sylfaen 2012/13, yn unol ag ymrwymadau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn hafal â:-

- gostyngiad 6% erbyn 2014/15
- gostyngiad 14% erbyn 2017/18
- gostyngiad 21% erbyn 2020/21

1.3 Fodd bynnag, er bod yr uchod yn cynnig cynllun amlinellol, er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn y lle gorau i gwrdd â'r targedau a chyflawni meini prawf Cynghair Werdd y Bobl a'r Blaned, sydd yn llunio un o ddangosyddion perfformiad Strategol o ran cynnydd y Brifysgol mewn perthynas â Chynaliadwyedd, mae angen cynllun gweithredu mwy manwl.

1.4 Mae'r agenda lleihau carbon wedi dod yn gynyddol bwysig yn nhermau cael ei adlewyrchu'n gynyddol ym mholisi deddfwriaethol a chyllidol diweddar y DU ill dau. Ymhellach, yn bragmatig, mae angen rheoli allyriadau carbon i leihau effeithiau amgylcheddol y Brifysgol, a lleihau ei chostau gweithredol, yn ogystal â chynnal a gwella ei henw da yn y maes hwn.

2. Pwrpas

2.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw amlinellu Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon sydd yn darparu manylion y camau a gynigir i fesur, lleihau a monitro ôl troed carbon Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae'n adnabod y prif gyfleoedd i leihau allyriadau carbon y Brifysgol drwy welliannau i'w hisadeiledd a drwy ymwneud â rhanddeiliaid y Brifysgol er mwyn newid arferion gwaith. Llunnir y cynllun hwn, felly, i sicrhau yr ymgorfforir y polisiau, y gweithdrefnau a'r dulliau cyflawni gostyngiadau carbon i mewn i'r ffordd mae'r Brifysgol gyfan yn gweithredu.

2.2 Y ddogfen sylfaen y mae'r Cynllun Gweithredu wedi ei lunio ohoni yw'r Adolygiad Rheoli Carbon a gynhyrchwyd gan Briar Associates o dan gylich gwaith



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

yr Ymddiriedolaeth Garbon yn gynnar yn 2014, y cyfeiriwyd at ei chanfyddiadau crynodol yn y Strategaeth Rheoli Carbon

3. Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon

- 3.1 Atodir y Cynllun Gweithredu arfaethedig fel Atodiad A. Mae'r meysydd gweithredu sydd wedi eu hadnabod ar gyfer lleihau carbon yn cwmpo i mewn i'r categorïau bras canlynol:-
- a. Gweithredu Rhaglen Fonitro er mwyn sicrhau bod y defnydd o ynni a'r defnydd o ddŵr yn cael eu monitro'n effeithiol drwy ddarparu a defnyddio System Rheoli Ynni a alluogir gan becyn meddalwedd priodol.
 - b. Gwella Adeiladau, sy'n cynnwys:-
 - (i) Gosod mwy o reolaethau ynni effeithiol a gysylltir â System Rheoli Ynni Adeiladau (BEMS) gynhwysfawr
 - (ii) Rhoi systemau ynni effeithiol yn lle bwyleri
 - (iii) Uwchraddio goleuadau a gosod system rheoli goleuadau
 - (iv) Defnyddio dulliau SMART i fesur cyfleustodau
 - (v) Mesurau Cynilo Dŵr
 - (vi) Asesu dichonoldeb gosod rhagor o baneli solar ffotofoltaig ar gampysau Caerfyrddin a Llambod
 - c. Ymgyrchoedd i hybu newid ymddygiadol, sy'n cynnwys:-
 - (i) Cyflwyno a gweithredu rhaglen/ymgyrch ymwybyddiaeth Ynni/Carbon
 - (ii) Toriad Trydan UCM (diffodd yr holl offer nad yw'n hanfodol) y cynigir y dylid ei ymestyn i ddigwydd yn amlach
 - (iii) Gweithredu Rhaglen Diffodd Cyfrifiaduron/TG
 - (iv) Cyflwyno a mabwysiadu gweithdrefnau i weithredu Rheolaethau Gwres yn effeithlon (ar gyfer Personél Allweddol)

4. Monitro

4.1 Er mwyn gweithredu'r Cynllun yn effeithiol, mae'n bwysig bod gan y Brifysgol fecanweithiau yn eu lle mewn perthynas â phob ffactor sydd yn effeithio ar ôl troed carbon y Brifysgol. Mae monitro data o'r fath yn hanfodol er mwyn i lwyddiant y cynllun gael ei werthuso'n fanwl a'i ddatblygu ymhellach. Felly ystyrir bod caffael System Rheoli Ynni i alluogi hyn yn flaenoriaeth uchel.

4.2 Ymhellach, er mwyn sicrhau y cyfarwyddir ac y rheolir y gwaith yn effeithiol, y dyrennir yr adnoddau priodol ac y gwneir penderfyniadau clir, cefnogir y cynllun Gweithredu gan Grŵp Tasg Rheoli Prosiect Carbon a luniwyd yn ddiweddar, gyda'r Prif Swyddog Lleihau Carbon fel cydlynnydd cyffredinol y Prosiect.

4.2 Er y gofynnir i'r Brifysgol adrodd ar ei hallyriadau carbon ar sail flynyddol, o gofio pwysigrwydd yr agenda hwn, cynigir y dylai adroddiadau chwarterol fod ar gael i uwch reolwyr ar draws y Cyfadrannau amrywiol er mwyn codi ymwybyddiaeth a cheisio eu cefnogaeth am y gwaith hwn. Ymhellach, cynigir y dylid adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

Cynaliadwyedd a'r Pwyllgor Rheoli'r Amgylchedd adrannol. Cynigir yn ogystal y dylid adolygu'r cynllun Gweithredu ar sail flynyddol.

Argymhelliad

5.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn cefnogi'r Cynllun Gweithredu Rheoli Carbon ac yn cytuno i dderbyn adroddiadau rheolaidd ar ei gynnydd.

5. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

Cynllun Strategol Cynaliadwyedd 2013-17
Strategaeth Rheoli Carbon Y Drindod Dewi Sant Gorffennaf 2014

6. Goblygiadau o ran Adnoddau

Goblygiad	Manylion
Cyllid	<i>Mae referniw a chyfalaf cyfyngedig ar gael i fuddsoddi mewn gwelliannau. Gall cyllid Salix fod ar gael fel menter buddsoddi er mwyn cynilo</i>
Staff	<i>Prif Swyddog Lleihau Carbon bellach yn ei swydd</i>
Asedau	<i>Dim</i>
Partneriaid	<i>Dim</i>
Graddfeydd Amser:	<i>CGAP – Cynllun i'w adolygu'n flynyddol</i>
Arweinyddiaeth	<i>Prif Swyddog Lleihau Carbon</i>

7. Aseiad Effaith

Goblygiad	A ystyriwyd yr effaith? (Do/Naddo)	Effaith a Adnabuwyd
Cyfreithiol	Do	<i>Methu cydymffurfio â thargedau a osodir gan Lywodraeth Cymru</i>
Cyfraniad at y Cynllun Strategol	Do	<i>Fe'i llunnir i danategu Cynllun Strategol y Brifysgol. Llunnir y Cynllun Gweithredu Carbon i wneud y Brifysgol yn fwy cynaliadwy drwy leihau ei Hôl Troed Carbon</i>
Dadansoddiad Risg	Do	<i>Byddai methu â mabwysiadu'r Cynllun yn arwain at y Brifysgol yn methu â chwrdd â'i thargedau lleihau Carbon a osodir gan Lywodraeth Cymru ynghyd â thaliadau CCL gormodol a ychwanegir at filiau cyfleustodau. Mae'r Brifysgol wedi'i hesgusodi rhag talu toll a seilir ar ei hallyriadau Carbon ar</i>



Prifysgol Cymru

Y Drindod Dewi Sant

University of Wales

Trinity Saint David

		<p><i>Drydan a Nwy. Byddai methu â mabwysiadu'r cynllun hefyd yn golygu na fyddai'r Brifysgol yn gwella ei dangosyddion Rheoli Carbon yng Nghynghrair Werdd y Bobl a'r Blaned. Yn y cam adrodd nesaf byddai'r Brifysgol yn cael ei chynnwys, yn arwain at ardoll o £16/Tunnell (wedi'i seilio ar y raddfa gyfredol) o Garbon. Byddai goblygiad ariannol sylweddol o bosib, wedi'i seilio ar allyriadau cyfredol.</i></p> <p><i>Yn olaf, mae risg bosib i enw da'r Brifysgol os gwelir nad yw'n cwrdd â'i thargedau lleihau carbon.</i></p>
Cydraddoldeb	Do	<i>Nid yw'r polisi yn gwahaniaethu</i>
laith Gymraeg	Do	<i>Gellir darparu'r polisi yn Gymraeg</i>
Amgylcheddol a Chynaliadwyedd	Do	<i>Bwriad y Cynllun Gweithredu Carbon yw cefnogi a chryfhau'r agenda cynaliadwyedd a Chynllun strategol Cynaliadwyedd y Brifysgol ill dau</i>
Cyfathrebu / Cyfryngau / Marchnata	Do	<i>Gwefan, Datganiadau i'r Wasg, Hysbysiadau drwy gyfryngau mewnol y Brifysgol ar bob campws</i>

Awdur y polisi: Duncan Morgan

Teitl Swydd: Prif Swyddog Lleihau Carbon

